## Y Grawys

**Darllen Mathew 4:1–4**

Yn ystod tymor y Grawys byddwn yn cofio am Iesu yn yr anialwch.

Cyn mynd ati i drafod yr adran hon mae'n werth rhoi sylw i'r gair 'temtio'. Y gair Groeg yw peirazo. Pan ddefnyddiwn ni'r gair 'temtio' yn Gymraeg, mae rhyw arlliw drwg iddo, sef cymell rhywun i wneud drwg neu berswadio rhywun i gerdded y llwybr anghywir. Ond mae'r gair Groeg yn cynnwys elfen wahanol, sef 'profi' rhywun. Yn yr hanes am Abraham ar fin aberthu ei fab Isaac yn yr Hen Destament, dywed y Cyfieithiad Awdurdodedig Saesneg fod Duw wedi 'temtio' Abraham, ond dywed y Beibl Cymraeg Newydd 'rhoddodd Duw brawf ar Abraham' (Genesis 22:1). Go brin y byddai Duw wedi temtio, yn yr ystyr o arwain Abraham i wneud drwg, fel yr awgryma'r fersiwn Saesneg. Yr hyn a wna Duw yw profi teyrngarwch a ffyddlondeb Abraham. Felly, yn hanes Iesu yn yr anialwch yr hyn a geir yw Duw yn profi Iesu, sydd bellach ar gychwyn ei weinidogaeth ac yn ystyried pa lwybr i'w gymryd. Pa ffordd – ffordd Duw neu ffordd y byd? Nid mynd i'r anialwch o'i fodd a wnaeth Iesu, ond cael ei arwain gan yr Ysbryd. Ac yn yr anialwch y mae'r profwr a ddaeth yn ôl droeon yn ystod ei weinidogaeth. Profwyd Iesu i'r eithaf yng ngardd Gethsemane ond Iesu a orchfygodd, 'Ond gwneler dy ewyllys di, nid fy ewyllys i' (Luc 22:42).

O'i amgylch yn yr anialwch roedd cerrig, neu ddarnau bychain o greigiau carreg galch, oedd yn edrych yn hynod o debyg i dorthau bychain. Tybed oedd Iesu am ddefnyddio'i rym er ei fwyn ei hun, yn hunanol a hunangar? Ond roedd ochr arall i gwestiwn y profwr. Pa ddull oedd Iesu am ei ddefnyddio i ennill pobl i Dduw? Un ffordd bosibl fyddai rhoi bara iddynt; rhoi pethau materol iddynt. Onid oedd hanes y genedl o blaid gwneud hynny o gofio bod Duw wedi rhoi manna i'r bobl yn yr anialwch? Ac o gofio mai gweledigaeth fawr y proffwyd Eseia oedd, 'Ni newynant ac ni sychedant' (Eseia 49:10), oni fyddai Iesu mewn olyniaeth fawreddog pe byddai'n gwneud hyn? Ond gwrthod wnaeth Iesu, ar ddau gownt. Yn gyntaf, ceisio swcro pobl trwy roi bwyd yn eu boliau fyddai peth felly. Mae Iesu yn galw pobl i fywyd o roi yn hytrach na bywyd o gael. Nid llwgrwobrwyo pobl oedd diben ei weinidogaeth. Yn ail, cael gwared â'r symptomau heb ddelio â'r afiechyd fyddai hynny. Y cwestiwn holl bwysig i'w godi oedd, pam fod dynion yn newynu? Ai oherwydd eu ffolineb, eu diofalwch a'u hesgeulustra? Gofynnwn yr un cwestiwn yn ein dyddiau ni? Beth sy'n gyfrifol heddiw fod cymaint yn ein byd yn newynu a sychedu? Yn un peth, ein difaterwch ni. Gwelwn ar y sgrin luniau o blant a phobl mewn gwahanol rannau o'r byd yn wynebu argyfyngau: y cnydau wedi methu neu arweinwyr y gwledydd wedi anghofio amdanynt. A cheir ymgyrch fawr i gael bwyd a diod i'r trigolion. Ond ymhen ysbaid mae'r cyfan wedi'i anghofio, a does dim llawer o sôn amdanynt. Yn hytrach na'n bod yn meddwl amdanynt ac yn ceisio eu helpu'n gyson, maent wedi mynd yn angof. Beth felly yw arwyddocâd yr ymryson cyntaf hwn â'r profwr? Yr unig ffordd i gael gwared â'r 'newyn' hwn ydi dileu'r achosion, ac mae'r rhain i gyd yn deillio o galon dyn. Dyfyniad o Lyfr Deuteronomium 8:3 yw ateb Iesu i'r profwr, 'Nid ar fara yn unig y bydd rhywun fyw, ond ar bob gair sy'n dod allan o enau Duw'. Trawsffurfio pobl ydi'r cam pwysicaf.

**Myfyrdod pellach:**

Ydych chi'n credu y byddai Duw'n temtio rhywun i wneud drwg?
Ai trawsffurfio pobl oedd nod a phwrpas gweinidogaeth Iesu?

***Huw John Hughes***